Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

# Cais am Gynigion Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fechan

## Canllawiau i Ymgeiswyr

Fersiwn 1.0

Mawrth 2017

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd yr UE:**
**Buddsoddi yng Nghymru**
**EU Funds:**
**Investing in Wales**

# Cynnwys

1 Cefndir - 3 -
1.1 Dyfodol cronfeydd yr UE - 3 -
1.2 Cefndir y cais am gynigion - 3 -
2 Cwmpas y cais - 4 -
2.1 Targedau i'w cyflawni - 5 -
2.2 Gweithgareddau cymwys - 6 -
2.3 Y cyllid sydd ar gael - 7 -
2.4 Cymorth Gwladwriaethol - 7 -
3 Dull y Cais - 8 -
4 Sut i ymgeisio - 8 -
5 Y broses asesu a phenderfynu - 9 -
6 Cysylltu / Ymholiadau pellach - 10 -
7 Dogfennau Defnyddiol / Rhagor o Wybodaeth - 10 -
8 Rhestr Termau - 11 -

# 1 Cefndir

Mae Twf Gwyrdd a'r newid i economi carbon isel yn cynnig cyfle hollbwysig i gefnogi'r broses o ddatblygu'r sector ynni môr sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru ac i alluogi datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan neu ar raddfa gymunedol.

Bydd y gefnogaeth yn canolbwyntio'n benodol ar fentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol (o bosibl mewn partneriaeth ag awdurdodau cyhoeddus neu'r sector preifat). Rhagwelir y bydd modd i'r cynlluniau ddangos cynlluniau ar raddfa fwy na rhai microgynhyrchu ac y byddant o fudd i gymunedau, rhanbarthau, neu ardaloedd trefol cyfan.

## 1.1 Dyfodol cronfeydd yr UE

Rydym yn parhau i ddarparu rhaglenni ariannu'r UE (2014 – 2020) yng Nghymru. Mae ceisiadau am gyllid yr UE yn parhau i gael eu datblygu a'u cymeradwyo yn unol ag amcanion y cytunwyd arnynt gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Bellach, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) wedi cadarnhau bod y broses ffurfiol ar gyfer cytuno ar delerau'r DU i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) wedi dechrau. Mae'r cam hwn wedi'i gymryd ar ôl pleidlais refferendwm y 23ain Mehefin 2016, pan bleidleisiodd y DU i adael yr UE ac mae wedi'i wneud yn unol ag Erthygl 50 Cytuniad yr Undeb Ewropeaidd, sy'n amlinellu'r ffordd y gall aelod-wladwriaeth adael yr UE.

Cyn yr uchod, rhoddodd Llywodraeth y DU wybod i'r Gweinyddiaethau Datganoledig, y rhanddeiliaid a'r buddiolwyr sy'n gweinyddu / gweithredu ac sy'n cael cymorth gan gronfeydd strwythurol:

- Y bydd cyllid yn cael ei warantu am oes ar gyfer yr holl weithrediadau fydd wedi'u cymeradwyo pan fydd y DU yn gadael yr UE – gan roi sicrwydd drwy hynny i'r holl fuddiolwyr y gallant barhau i gyfrannu at gyflawni Rhaglenni 2014-2020 fel y cynlluniwyd.
- Am ei bwriad i gyflwyno'r Bil Diddymu Mawr, lle bydd corff cyfraith bresennol yr UE yn cael ei throsi i gyfraith ddomestig a / neu yr ymdrinnir â rhai elfennau drwy'r cytundeb tynnu'n ôl – gan ddarparu eglurder, sicrwydd cyfreithiol a chysondeb drwy hynny i bawb yn ystod y cyfnod trafod a thu hwnt o bosibl.

## 1.2 Cefndir y cais am gynigion

Mae Cronfeydd Strwythurol yr UE yn helpu i roi cymorth i bobl gael gwaith a hyfforddiant, cyflogaeth ieuenctid, ymchwil ac arloesedd, cystadleurwydd ymysg busnesau (busnesau bach a chanolig), ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, a chysylltedd a datblygu trefol. Ynghyd ag arian cyfatebol, bydd y cronfeydd yn sbarduno cyfanswm buddsoddiad o £2.7 biliwn o leiaf ledled Cymru. Mae gwybodaeth gefndir am Gronfeydd Strwythurol yng Nghymru ar gael ar wefan WEFO[2]. Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i elfennau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa

[2] http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/?skip=1&lang=cy

Fechan (hyd at 10MW) y rhaglenni hynny. Mae arian ar wahân ar gael ar gyfer rhanbarthau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, yn dibynnu lle mae eich cynllun cymunedol (Gweler **Atodiad A**).

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â Blaenoriaeth 3, Amcan Penodol 3.2 Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni, sef cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan sydd wedi'u sefydlu yn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd;

a

Blaenoriaeth 3, Amcan Penodol 3.1 Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni, sef cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan sydd wedi'u sefydlu yn rhanbarth Dwyrain Cymru;

**Gobaith y ddau amcan yw:**

> "cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan sydd wedi'u sefydlu drwy gynyddu nifer y safleoedd yng Nghymru sy'n cynhyrchu trydan gan ddefnyddio ffynonellau adnewyddadwy."

Mae hon yn un gydran mewn set gyffredinol o raglenni sy'n helpu i fynd i'r afael â diogelwch ynni sy'n cael ei nodi fel her sylweddol a chyfle byd-eang, yn cynnwys gan Lywodraeth Cymru. Mae mynd i'r afael â'r heriau hynny drwy drawsnewid i economi carbon isel ac effeithlon o ran ynni yn hollbwysig i fynd i'r afael â nodau newid yn yr hinsawdd. Mae anwadalrwydd prisiau ynni ac adnoddau sy'n prinhau yn golygu bod effeithlonrwydd ynni a'r broses o drawsnewid i economi carbon isel yn bwysicach byth o ran swyddi a thwf y dyfodol.

Un o ofynion allweddol ar gyfer buddsoddiadau mewn cynlluniau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fechan yw lleihau defnydd, a nodir fel cyfle i ddefnyddio technoleg ddoethach yn ogystal â thrwy newid o ran ymddygiad ac effeithlonrwydd ynni. Mae cysylltiadau agos rhwng hyn a chyfleoedd ar gyfer y sector effeithlonrwydd adnoddau a nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, ac mae'n ffordd hollbwysig o helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Mae WEFO hefyd yn ymdrin â buddsoddi drwy ddull portffolio fel y bydd gwahanol weithrediadau'n ategu ac yn ychwanegu gwerth i'w gilydd. Pwrpas y cais hwn am gynigion yw ceisio pennu gweithrediadau a fydd yn gallu darparu enghreifftiau y bydd modd eu hefelychu o ffyrdd clyfar o ddefnyddio ynni mewn cyd-destun cymunedol.

## 2 Cwmpas y cais

Mae WEFO yn chwilio am gynigion a fydd yn dangos gallu cymuned i greu ei ffynhonnell ynni ei hun a'i rheoli drwy raglen grid clyfar. At ddibenion y cais hwn, nid yw 'cymuned' yn golygu clwstwr o dai wedi'u diffinio'n glir yn unig, er enghraifft gall cymuned fusnes gyflwyno cais hefyd, megis ystâd ddiwydiannol fach, neu gymuned

gydweithredol. Dylai'r cynigion allu cyflwyno'r seilwaith a bod yn weithredol yn unol ag amserlenni'r rhaglen. Dylid nodi nad oes modd i WEFO gefnogi cynigion sy'n awyddus i elwa o Dariffau Cyflenwi Trydan neu'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy, o ganlyniad i reoliadau Cymorth Gwladwriaethol. Dylai'r cynigion gyd-fynd â'r gweithrediadau presennol a chanolbwyntio ar seilwaith yn hytrach nag ymchwil. Dylid canolbwyntio'n bennaf ar y canlyniad sy'n cael ei gyflawni. Fel ffordd o ddangos hyn, bydd angen cyflawni nifer o dargedau (gweler 2.1 isod). Dylai'r cynigion gynnwys cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan sydd wedi'u sefydlu (yn unol â disgrifiad yr amcan yn Adran 1).

Mae'r mathau o gynigion sy'n **debygol** o gael cefnogaeth fel a ganlyn:

- Cynlluniau a fydd yn cyflwyno'r seilwaith ac a fydd yn weithredol cyn i'r rhaglenni ddod i ben.
- Cynlluniau sy'n dangos cynaliadwyedd y tu hwnt i ymyrraeth ERDF a'r gallu i sicrhau cyflenwad ynni wedi'i ddiogelu'n gadarn at y dyfodol drwy leihau dibyniaeth lwyr ar gyflenwyr ynni presennol.
- Cynlluniau sy'n ymgorffori ateb o ran storio ar gyfer symud amser yr egni sy'n cael ei greu i pan fydd ei angen.
- Cynlluniau sydd eisoes y tu hwnt i'r cyfnod cwmpasu cychwynnol gyda syniad clir o'r atebion a'r seilwaith ar gyfer eu rhoi ar waith.
- Cynlluniau sy'n gallu dangos cynllun cynaliadwy cryf ar gyfer parhau â'r datrysiad ynni cymunedol ar ôl yr ymyrraeth ERDF.
- Cynlluniau a chanddynt ddealltwriaeth glir o le gellir cael gafael ar arian cyfatebol ar gyfer y cynnig.

Mae'r mathau o gynigion **nad ydynt** yn debygol o gael cefnogaeth fel a ganlyn:

- Cynlluniau sy'n cael eu cyflwyno drwy osod systemau Ffotofoltäig (solar) yn unig.
- Cynlluniau sy'n cynnwys fferm wynt. Mae'n bosibl y caiff un neu ddau dyrbin gwynt eu hystyried fel rhan o'r datrysiad.
- Cynlluniau sy'n awyddus i elwa o Dariffau Cyflenwi Trydan neu Gymhelliant Gwres Adnewyddadwy.
- Cynlluniau sy'n fuddsoddiadau Ymchwil a Datblygu ac Arloesedd ac yn ymwneud â datblygiadau technoleg ym maes Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

Gwahoddir cynigion y gellir eu cyflwyno yn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd **a/neu** ranbarth Dwyrain Cymru ond rhaid iddynt gyflawni targedau priodol, yn y rhanbarth perthnasol (Gweler **Atodiad A** am fap). Nid oes cyfyngiad o ran y math o sefydliad (preifat, cyhoeddus neu drydydd sector) sy'n cael cyflwyno cynnig.

## 2.1 Targedau i'w cyflawni

Wrth ddangos y rhesymeg ar gyfer eich cynnig, bydd angen i chi ddisgrifio sut y byddwch yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r amcan a nodwyd yn Adran 1 (Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan sydd wedi'u sefydlu). Wrth wneud hynny, byddwn yn disgwyl y bydd cyfraniad y gellir ei fesur yn

uniongyrchol at gyflawni'r targedau sydd wedi'u disgrifio isod. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, ac efallai y dewisir gwahanol dargedau ar gyfer gwahanol gynigion, ond cyfuniad o'r rhain fydd y brif ffordd o asesu perfformiad y gweithrediadau a gaiff eu cymeradwyo.

**Targedau ar gyfer SO3.1 Dwyrain Cymru**

- Nifer y prosiectau peilot sydd wedi'u cwblhau
- Cynlluniau ynni cymunedol
- Cynlluniau paratoi safle cymorth ynni
- Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofir (dyma'r cyfuniad unigryw o greu/rheoli/dosbarthu ynni i'r cynllun)

**Targedau ar gyfer SO3.2 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd**

- Nifer y prosiectau peilot sydd wedi'u cwblhau
- Cynlluniau ynni cymunedol
- Cynlluniau paratoi safle cymorth ynni
- Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofir (dyma'r cyfuniad unigryw o greu/rheoli/dosbarthu ynni i'r cynllun)

Ar ben hyn mae nifer o ddangosyddion yn ymwneud â Themâu Trawsbynciol y dylid hefyd eu hystyried wrth baratoi eich cynnig (Tudalennau 23-24 http://gov.wales/docs/wefo/publications/170213-cct-erdf-key-document-cy.pdf). Mae'r rhain yn cynnwys themâu ynghylch Cyfle Cyfartal, Datblygu Cynaliadwy a Threchu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol. NI ddylid cynnwys y wybodaeth hon yn eich cynnig ond dylid ei hystyried nawr wrth baratoi at y cam nesaf os byddwch yn llwyddiannus.

## 2.2 Gweithgareddau cymwys

Mae amrywiaeth fawr o weithgareddau'n gymwys i gael cymorth a gellir cynnwys y rhan fwyaf o weithgareddau os gellir dangos eu bod yn cyfrannu at gwrdd â'r amcan ac yn helpu i gyflawni'r targedau. Mae rhai gweithgareddau dangosol wedi'u rhestru yn y dogfennau rhaglennu cyffredinol[3], ond enghreifftiau'n unig yw'r rhain. Bydd

[3] Rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (Rhaglenni Gweithredol) ERDF - http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/west-wales/?skip=1&lang=cy a rhaglenni Dwyrain Cymru (Rhaglenni Gweithredol) ERDF - http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/east-wales/?skip=1&lang=cy

croeso arbennig i'r targedau os byddant yn cynnig ffyrdd gwell o sicrhau'r canlyniadau arfaethedig.

- **Rhywfaint** o weithgaredd dichonoldeb lle mai rhan olaf y gweithgaredd yw pennu manylion y seilwaith a gaiff ei gyflawni yn well.

- Caffael dyfeisiau a'u gosod.

- Costau rheoli prosiect. Nid yw hyn yn cynnwys y costau o ran paratoi'r cynigion.

Yn yr un modd â phob math arall o gynnig, bydd WEFO yn cwblhau'r gwiriadau diwydrwydd dyladwy sydd eu hangen i sicrhau bod sefydliadau mewn sefyllfa briodol o ran arian ac adnoddau i gyflawni'r gweithgaredd arfaethedig. Nid oes yn rhaid cael profiad blaenorol o gyflawni gweithrediad dan y cronfeydd strwythurol, a bydd croeso i sefydliadau sy'n newydd i'r Cronfeydd Strwythurol.

## 2.3 Y cyllid sydd ar gael

Gall faint o gyllid sydd ar gael newid yn ôl amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid:

| | |
|---|---|
| **Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | **£10m** |
| **Dwyrain Cymru** | **£ 4m** |

Y nod yw neilltuo'r holl arian sydd ar gael drwy'r cais hwn ac o'r herwydd, mae WEFO yn disgwyl y bydd llawer o ddiddordeb yn y cais ac y bydd cystadleuaeth frwd am gyllid.

Mae angen i ymgeiswyr posibl felly ystyried er y gall Cronfeydd Strwythurol gynnig llawer o gymorth gyda chostau cymwys gweithrediad, fe fydd hefyd angen i chi gyfrannu at fodloni'r costau hyn. Efallai y bydd yn rhaid i chi wneud hyn yn uniongyrchol gyda'ch adnoddau eich hun a/neu gyda chyllid gan ffynonellau ariannu allanol. Gallwn hefyd gydnabod cyfraniadau cymwys mewn nwyddau wrth ddatblygu'r pecyn ariannu cyffredinol. Gelwir hyn yn arian cyfatebol.

## 2.4 Cymorth Gwladwriaethol

Sylwch y caiff y cymorth hwn ei roi yn unol â Chymorth GBER ar gyfer Diogelu'r Amgylchedd a does dim modd ei gronni â mathau eraill o gymorth Gwladwriaethol. Os bydd eich cynnig yn cael budd o fathau eraill o gymorth megis Tariffau Cyflenwi Trydan neu Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ni fyddwch yn gymwys i gael cymorth gan Gronfa Strwythurol.

## 3 Dull y Cais

| | |
|---|---|
| Dyddiad dechrau'r ymarfer | 12$^{fed}$ Ebrill 2017 |
| Dyddiadau'r sesiynau galw heibio | Cyffordd Llandudno– 16$^{eg}$ Mai 2017<br>Merthyr Tudful – 31$^{ain}$ Mai 2017<br>Aberystwyth – 1$^{af}$ Mehefin 2017 |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion | 30$^{ain}$ Mehefin 2017 |
| Rhoi gwybod i ymgeiswyr am y penderfyniad | 30$^{ain}$ Medi 2017 |

## 4 Sut i ymgeisio

**CAM 1:** Bydd angen i ddarpar ymgeiswyr gofrestru eu manylion cyswllt (e-bost) gyda WEFO yn y blwch negeseuon Ynni - WEFOEnergyBranch@wales.gsi.gov.uk

**CAM 2:** Byddwch yn cael cynnig mynd i sesiwn wybodaeth galw heibio naill ai yng ngogledd neu yn ne Cymru (nodir y dyddiadau uchod). Darperir manylion penodol ar gais.

**CAM 3:** Gofynnir i chi gyflwyno **Tabl Rhesymeg Gweithredu** (TRhG) a **Dogfen Wybodaeth Ategol** (DWA). Mae'r TRhG yn dabl byr sy'n dangos y sail resymegol i'ch cynnig ac yn dangos y canlyniad a'r grwpiau targed yn glir[4]. Bydd y DWA yn cynnwys gwybodaeth weinyddol am eich cynnig ac yn rhoi cyfle i chi egluro sut mae'n ffitio i gwmpas y cais hwn.

**CAM 4:** Bydd y dogfennau hyn yn cael eu hasesu wedyn gan WEFO a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwahoddiad i'r Cyfnod Cynllunio Busnes ffurfiol er mwyn datblygu'r cynnig ymhellach a chreu Cynllun Busnes. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw mynd ag OLT i'r cyfnod Cynllunio Busnes yn gynnig nac yn gwarantu cyllid i chi. Ond bydd WEFO yn gweithio gyda chi i ddatblygu eich cynnig ymhellach i Gynllun Busnes.

Wrth lenwi'r TRhG a'r DWA:

- Gofalwch eich bod wedi darllen a deall y wybodaeth ategol berthnasol a'r dogfennau canllaw sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon (gweler y dogfennau defnyddiol ar ddiwedd y canllawiau hyn, adran 7).

[4] Gellir gweld enghraifft o TRhG wedi'i gwblhau yn Atodiad A "Gwneud Cais am Gyllid yr UE – Rhan 1: Y Cyfnod Cyn Cynllunio" - http://gov.wales/docs/wefo/publications/140325applyingforfundingpart1cy.pdf

- Ysgrifennwch yn fyr ac yn gryno. Ni ddylai'r TRhG na'r DWA fod yn hirach na 2 ochr o dudalen A4 yr un. Ni fydd gwybodaeth a ddarperir ar ben hynny, er enghraifft atodiadau, yn cael ei hystyried wrth flaenoriaethu cynigion. Er hynny, bydd croeso i chi gynnwys cyfeiriadau at dystiolaeth annibynnol.

- Dangoswch yn glir sut mae'ch cynnig yn ffitio'n fanwl i gwmpas y cais (Adran 2).

- Dangoswch werth am arian drwy nodi'r effaith ymarferol ac uniongyrchol y bydd eich cynnig yn gallu ei sicrhau mewn perthynas â'r costau.

| |
|---|
| Bydd angen cyflwyno copi electronig o'r Tabl Rhesymeg Gweithredu a'r Ddogfen Wybodaeth Ategol ym Mlwch Negeseuon y Gangen Ynni (WEFOEnergyBranch@wales.gsi.gov.uk) cyn **5pm ar 30ain Mehefin 2017**. Ni fydd WEFO yn derbyn dogfennau a gyflwynir yn hwyr. |

## 5 Y broses asesu a phenderfynu

Bydd WEFO yn dilyn ei brosesau arferol ar gyfer dethol a blaenoriaethu gweithrediadau[5]. Fel yr eglurwyd yn adran 4, bydd WEFO yn blaenoriaethu cynigion a gyflwynir mewn ymateb i'r cais hwn ar sail y Tabl Rhesymeg Gweithredu (TRhG), a'r Ddogfen Wybodaeth Ategol (DWA). Bydd pob cynnig yn cael ei farnu ar sail ei rinweddau ei hun a thrwy ei gymharu â chynigion eraill. Wrth helpu i flaenoriaethu cynigion, mae'n bosibl y bydd WEFO yn gofyn am gyngor gan arbenigwyr, ond WEFO fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Bydd pob ymgeisydd yn cael ei hysbysu am ganlyniadau'r ymarfer.

Bydd cynigion llwyddiannus ar gyfer y Cyfnod Cynllunio Busnes yn debygol o fod:

- Wedi bodloni meini prawf cymhwysedd sylfaenol
- Yn glir o ran eu ffocws, eu rhesymeg ymyrryd a'u dull o ddarparu
- Yn ffitio'n fanwl i gwmpas y cais
- Yn cyfrannu'n bendant ac yn ymarferol at gyflawni'r Targedau
- Yn gallu dangos Cynaliadwyedd Hirdymor

Bydd cynigion aflwyddiannus ar gyfer y cyfnod TRhG yn debygol o fod:

- Heb fodloni meini prawf cymhwysedd sylfaenol
- Yn aneglur o ran eu ffocws, eu rhesymeg ymyrryd a'u dull o ddarparu

---

[5] Canllawiau ar gyfer sefydliadau sy'n ymgeisio am gronfeydd yr UE 2014-2020 - http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/applying/?skip=1&lang=cy

- Heb ffitio'n fanwl i gwmpas y cais
- Yn wan a/neu'n anymarferol o ran eu cyfraniad at gyflawni'r Targedau
- Heb fod wedi gallu dangos Cynaliadwyedd Hirdymor

Am fod yr arian sydd ar gael yn gyfyngedig, mae hefyd yn bosibl na fydd cynigion sy'n ffitio i gwmpas y cais yn cael eu blaenoriaethu.

Bydd pob cynnig sy'n symud ymlaen i'r "Cyfnod Cynllunio Busnes" ffurfiol yn cael ei arfarnu'n llawn ar sail y meini prawf rydym wedi'u cyhoeddi ar gyfer dethol a blaenoriaethu (http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/applying/?lang=cy).

Rhoddir prawf ar y dystiolaeth a ddarperir yn ystod yr ymarfer blaenoriaethu ar ddechrau'r broses cynllunio busnes ac os nad oes modd ei phrofi, gellir gwrthod cynigion ar unrhyw adeg cyn cynnig grant.

## 6 Cysylltu / Ymholiadau pellach

Bydd WEFO yn falch o helpu i egluro'r broses a'i flaenoriaethau ar gyfer ariannu, yn enwedig os nad ydych yn gyfarwydd â'r Cronfeydd Strwythurol. Mae'n bosibl y bydd angen cyfyngu ar drafod y manylion mewn cynigion penodol er mwyn sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael yr un cyfle. Fel y nodwyd eisoes yn y ddogfen hon, bydd sesiynau galw heibio yn cael eu cynnal yn ystod y broses y byddwch efallai'n awyddus i ddod i un ohonynt (gweler adran 3). Bydd cyfle yn y sesiynau galw heibio hyn i gynnal trafodaeth un-i-un â staff WEFO.

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth, anfonwch neges e-bost i Flwch Negeseuon Cangen Ynni WEFO yn y lle cyntaf (WEFOEnergyBranch@wales.gsi.gov.uk) a byddwn yn ymateb i unrhyw ymholiadau sydd gennych.

## 7 Dogfennau Defnyddiol / Rhagor o Wybodaeth

Os ydych yn ystyried cyflwyno cynnig, dylech ymgyfarwyddo â'r dogfennau canllaw a gwybodaeth canlynol sydd ar gael ar wefan WEFO:

- Canllaw ar gyfer sefydliadau sy'n ymgeisio am gronfeydd yr UE 2014-2020 - http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/applying/?lang=cy

- Rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (Rhaglenni Gweithredol) ERDF - http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/west-wales/?lang=cy [Sylwer: dim ond i Flaenoriaeth 3, Amcan Penodol 3.2, mae'r cais hwn am gynigion yn berthnasol]

- Rhaglenni Dwyrain Cymru (Rhaglenni Gweithredol) ERDF - http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/east-wales/?lang=cy [Sylwer:

dim ond i Flaenoriaeth 3, Amcan Penodol 3.1, mae'r cais hwn am gynigion yn berthnasol]


- Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd - http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/wefo-guidance/epf/?lang=cy
- Rheolau cymhwystra ac amodau ar gyfer cael cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020 yng Nghymru - http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/wefo-guidance/eligibility/?lang=cy
- Canllaw ar Ddiffiniadau Dangosyddion, Data a Gofynion o ran Tystiolaeth: Blaenoriaeth Echel 3 ERDF: Ymchwil ac Arloesedd - http://gov.wales/docs/wefo/publications/1604040-indicators-priority1.pdf

## 8 Rhestr Termau

- ERDF – Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
- EW – Dwyrain Cymru
- Arian Cyfatebol (MF) – Incwm ar ben yr ERDF y gofynnir amdano yn y cais hwn
- MW – Megawat
- Gweithrediad/Prosiect – gweithgaredd neu weithgareddau rydych chi'n gwneud cais am Gymorth Ariannol ar eu cyfer fel y disgrifir yn y Tabl Rhesymeg Gweithredu, ac a fydd yn cyfrannu at amcanion penodol blaenoriaethau'r rhaglen fel y nodir yn y Rhaglen Weithredol.
- TRhG – Tabl Rhesymeg Gweithredu
- DWA – Dogfen Wybodaeth Ategol
- SO – Amcan Penodol
- WEFO – Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- WWV – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

**Atodiad A**

# European Structural Fund Programme Regions in Wales for 2014-2020




© Crown Copyright and database right 2014.
Ordnance Survey 100021874
Cartographics • Welsh Government • ML/147/14.15
November 2014



**Am ragor o wybodaeth:**
**www.llyw.cymru/ue-ariannu**
**@wefowales / @wefocymru**

**Blwch Negeseuon y Gangen Ynni:**
WEFOEnergyBranch@wales.gsi.gov.uk

Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru
EU Funds: Investing in Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government